# Fforest Fawr

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



Castell Coch | The 'red castle'   © Hawlfraint y Goron © Crown copyright (2021) Cymru | Wales



Bele ar y Llwybr Darganfod Cerfluniau | Pine Marten on Sculpture Discovery Trail

## Darganfyddwch y porth hwn i Gastell Coch

Fforest Fawr yw'r coetir sy'n amgylchynu mawredd Castell Coch. Mae'r coetir cymysg hwn yn enwog am ei garped o glychau'r gog, blodau'r gwynt a garlleg gwyllt yn y gwanwyn. Rydym yn ei droi'n raddol yn goetir llydanddail brodorol drachefn. Oeddech chi'n gwybod bod Fforest Fawr yn cael ei defnyddio'n aml fel lleoliad ffilmio ar gyfer cynyrchiadau sy'n amrywio o ddramâu hanesyddol Cymraeg i raglenni teledu i blant, gyda *Merlin* a *Sherlock* yn eu plith?

## Castell Coch – tyrau tywodfaen tlws y goedwig

Wedi'i adeiladu ar adfeilion castell canoloesol, mae Castell Coch yn enghraifft wych o'r Adfywiad Gothig Fictoraidd. Mae gan y castell olygfa ddramatig o Geunant Taf ac mae'n dirnod amlwg o'r A470 – gan godi'n ddramatig o goedwig ffawydd Fforest Fawr.

Sylwch mai ar gyfer ymwelwyr sydd wedi talu'n unig y mae'r cyfleusterau toiled a'r ystafell de. I gael rhagor o wybodaeth am oriau agor, ewch i **https://cadw.llyw.cymru**

## Explore this gateway to Castell Coch


Fforest Fawr is the woodland backdrop to the famous Castell Coch. This mixed woodland is renowned for its display of bluebells, wood anenomes and wild garlic in the spring. We are gradually returning it to native broadleaved woodland.

Did you know that Fforest Fawr is frequently used as a film location for productions ranging from Welsh historical dramas to children's TV programmes like *Merlin* and *Sherlock*?

## Castell Coch – the 'red castle' that rises from the forest

Built on the ruins of a medieval castle, Castell Coch is an excellent example of Victorian Gothic Revival. The castle has a commanding view of the Taff Gorge and is a landmark on the A470 – dramatically rising out of Fforest Fawr's beech woods.

Please note that the toilet facilities and tearoom are only for visitors who have paid the entry fee. For more information on opening hours, please visit **www.cadw.wales.gov.uk**




### Llwybr Darganfod Cerfluniau
### Sculpture Discovery Trail

**Hawdd | Easy**

Pellter | Distance: 1 ¼ m | 2 km
Amser | Time: 1 awr | hour

UCHAFBWYNTIAU: Darganfyddwch rai o 'drigolion' anarferol Fforest Fawr ar hyd y llwybr hwn i deuluoedd. Ym mhen pellaf y llwybr mwynhewch olygfa banoramig o'r dyffryn a'r bryniau cyfagos.

HIGHLIGHTS: Discover some of the unusual 'residents' of Fforest Fawr along this trail for families. At the far end of the trail enjoy a panoramic view of the valley and surrounding hills.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**

uchder | height (m) — pellter | distance (km)
maes parcio **Fforest Fawr** car park — maes parcio **Fforest Fawr** car park

### Llwybr Syr Henry
### Sir Henry's Trail

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 2 ½ m | 3.9 km
Amser | Time: 2 awr | hours

UCHAFBWYNTIAU: Peidiwch â cholli hen waith cloddio haearn Ogof y Tair Arth. Mae'r daith gylchol hon yn cysylltu meysydd parcio Castell Coch a Fforest Fawr.

HIGHLIGHTS: Don't miss the Three Bears Cave old iron-mining workings. This circular walk connects Castell Coch and Fforest Fawr car parks.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**

uchder | height (m) — pellter | distance (km)
maes parcio **Fforest Fawr** car park — Castell Coch — maes parcio **Fforest Fawr** car park

### Ffordd Burges
### Burges' Way

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 1 m | 1.8km
Amser | Time: 1 awr | hour

UCHAFBWYNTIAU: Mae'r daith gerdded hon o amgylch pen gorllewinol Fforest Fawr yn cychwyn o faes parcio Castell Coch.

HIGHLIGHTS: This walk around the western end of Fforest Fawr starts from the Castell Coch car park.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**

uchder | height (m) — pellter | distance (km)
Castell Coch — Castell Coch

### Llwybr Ogof y Tair Arth
### Three Bears Cave Walk

**Hawdd | Easy**

Pellter | Distance: 1 ½ m | 2.6 km
Amser | Time: 1 ¼ awr | hours

Gan ddechrau o faes parcio Fforest Fawr, dilynwch yr arwyddbyst brown.
UCHAFBWYNTIAU: Fe welwch hen waith mwyngloddio haearn trawiadol Ogof y Tair Arth.

Starting from the Fforest Fawr car park, follow the brown waymarkers.
HIGHLIGHTS: You'll find the impressive old iron mining works of the Three Bears Cave.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**

uchder | height (m) — pellter | distance (km)
maes parcio **Fforest Fawr** car park — maes parcio **Fforest Fawr** car park

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021. OS 100019741 | © Crown copyright and database rights 2021. OS 100019741

parcio / parking
lle picnic / picnic area
caffi / café
castell / castle
llwybrau cerdded / walking trails
llwybr darganfod / discovery trail
llwybr cyhoeddus / public footpath
llwybr marchogaeth / bridleway
Taith Taf / Taff Trail
Taith Taf - llwybr dewis arall / Taff Trail - alternative route
ffin y goedwig / forest boundary
dim mynediad / no access



Ogof y Tair Arth | Three Bears Cave   © Jeremy Segrott

## Mwyngloddiau haearn cudd y goedwig

**Ar hyd y llwybrau cerdded, fe sylwch ar rai tomenni a phantiau ar draws Fforest Fawr. Safleoedd mwyngloddio haearn bas a'u tomenni rwbel cyfagos yw'r rhain, sydd bellach wedi'u gorchuddio â llystyfiant.**

Gallwch weld mwynglawdd dramatig Ogof y Tair Arth - fe'i gelwir hefyd yn Dair Bwa. Mae'n rhy beryglus mentro'n agos (gallwch weld o'r ffens) – y tu mewn byddwch yn gweld 'haenau' trwchus o galchfaen, a elwir yn welyau, yn disgyn i'r gogledd-orllewin.

## Iron mines hidden in the forest

**Along the walks, you will notice some mounds and hollows across Fforest Fawr. These are shallow iron-mining workings and their adjacent spoil tips, now overgrown with vegetation.**

You can see the dramatic Three Bears Cave mine remains - otherwise known as the Three Arches. Too dangerous to visit (you can see it through the fence) - inside you would see the thick 'layers' of limestone, called beds, dipping to the northwest.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government